**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Adroddiad: CA(3)-29-10: 1 Rhagfyr 2010**

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400004_27_05_2010&t=0

**Amser: 09.30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Janet Ryder, Gogledd Cymru (Cadeirydd)
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
William Graham, Dwyrain De Cymru
Rhodri Morgan, Gorllewin Caerdydd
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

**Ymddiheuriadau**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:

Nid oedd Offerynnau nac Offerynnau Drafft ar yr Agenda.

**Busnes arall**

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Drafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: Gwersi a ddysgwyd o'r tair blynedd gyntaf**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan John Griffiths AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol. Cytunodd y Cwnsler Cyffredinol i ddarparu eglurhad pellach o'r gosodiad deddfwriaethol sydd yn y Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.

**Ystyried Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru)**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, mewn perthynas â Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru).

**Gohebiaeth y Pwyllgor: Ymateb gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig i lythyr y Cadeirydd ynghylch Adroddiad Technegol ac Adroddiad ar Ragoriaethau'r Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 (CA459) a'r Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2010 (CA469)**

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig i lythyr y Cadeirydd ynghylch Adroddiad Technegol ac Adroddiad ar Ragoriaethau'r Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 (CA459) a'r Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2010 (CA469)

**Penderfyniad i gyfarfod yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn mewn perthynas â'r ymchwiliad i ddrafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: Gwersi a ddysgwyd o'r tair blynedd gyntaf, a'r dystiolaeth a gafwyd ynghylch y Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru).

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**1 Rhagfyr 2010**